# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 5

COSBAU

## PENNOD 5

COSBAU SY'N YMWNEUD AG YMCHWILIADAU

*Cosbau pellach am barhau i fethu â chydymffurfio neu am barhau i rwystro*

### 150 Cosb ddiofyn ddyddiol uwch am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os caiff cosb o dan adran 147 ei hasesu o dan adran 153 mewn cysylltiad â methiant person i gydymffurfio â hysbysiad trydydd parti anhysbys,

(b) os yw'r methiant yn parhau am fwy na 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddwyd hysbysiad am y gosb, ac

(c) os dywedwyd wrth y person y gellir gwneud cais o dan yr adran hon i osod cosb ddyddiol uwch.

(2) Caiff ACC wneud cais i'r tribiwnlys osod cosb ddyddiol uwch ar y person.

(3) Ond ni chaiff ACC wneud cais o'r fath os yw penderfyniad mewn perthynas â chosb o dan adran 146 neu 147 mewn cysylltiad â'r methiant yn destun—

(a) adolygiad nad yw hysbysiad am ei gasgliadau wedi ei ddyroddi hyd yma, neu

(b) apêl nad yw wedi ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl hyd yma.

(4) Os yw'r tribiwnlys yn penderfynu y dylid gosod cosb ddyddiol uwch, yna ar gyfer pob diwrnod cymwys y mae'r methiant yn parhau—

(a) nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 147 am y methiant, a

(b) mae'r person yn agored yn hytrach i gosb o dan yr adran hon o swm a bennir gan y tribiwnlys.

(5) Ni chaiff y tribiwnlys bennu swm sy'n uwch na £1,000 ar gyfer pob diwrnod cymwys.

(6) Wrth bennu'r swm rhaid i'r tribiwnlys roi sylw i—

(a) cost debygol cydymffurfio â'r hysbysiad i'r person,

(b) unrhyw fuddiannau i'r person o beidio â chydymffurfio â'r hysbysiad, ac

(c) unrhyw fuddiannau i unrhyw un arall sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r person wedi cydymffurfio.

(7) Os daw person yn agored i gosb o dan yr adran hon, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad sy'n nodi'r ffaith honno i'r person.

(8) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y diwrnod cyntaf y bydd y gosb uwch yn gymwys.

(9) Mae'r diwrnod hwnnw ac unrhyw ddiwrnod dilynol y mae'r methiant yn parhau yn "ddiwrnod cymwys" at ddibenion yr adran hon ac adran 153(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 150 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 150 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 150.